Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Pontnewydd

**40 Station Road**
**Pontnewydd**
**Cwmbrân**
**Torfaen**
**NP44 1NZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Meithrinfa Pontnewydd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa Pontnewydd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Ddim yn berthnasol |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Stephen Cross |
| Person â gofal | Kaye Knox – rheolwr |
| Nifer y lleoedd | 86 |
| Amrediad oedran y plant | 0 – 5 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 22 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 22 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener: 7.30 – 18.00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 25/07/23 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 21/05/2024 |
| Mae'r lleoliad wedi newid o fod yn lleoliad cyfrwng Cymraeg i leoliad cyfrwng Saesneg er mis Medi 2023.<br>Ychydig iawn o blant sy'n siarad Cymraeg gartref ac mae ychydig ohonynt yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfuwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i blant ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth amrywiol Cymru

A2 Sicrhau bod targedau ar gyfer gwella yn canolbwyntio ar brofiadau, dysgu a chynnydd plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob un o'r plant hŷn yn hapus yn y lleoliad. Maent yn cyfranogi'n dda yn eu gweithgareddau dysgu a chwarae ac yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau addas. Maent yn mwynhau'r rhyddid i symud o gwmpas yr ardaloedd dysgu dan do a dewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Er enghraifft, maent yn dewis chwarae'n rhydd yn yr ardal dywod ac yn defnyddio stampiau i greu eu celfyddyd eu hunain yn yr ardal greadigol. Amser brecwast, maent yn dewis beth hoffent ei fwyta o'r gwahanol fathau o rawnfwyd sydd ar gael. Mae plant iau yn mynegi eu hanghenion hefyd ac yn datblygu eu ffyrdd eu hunain o gyfathrebu trwy ddefnyddio arwyddion di-eiriau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymdopi'n dda wrth iddynt wahanu oddi wrth eu rhieni a gofalwyr. Maent yn hapus ac yn gyfforddus wrth gyrraedd ac yn cael eu cyfarch gan ymarferwyr cyfeillgar. Mae bron bob un o'r plant yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol, fel golchi eu dwylo cyn bwyta a sychu eu hwynebu ar ôl hynny. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn gadarnhaol iawn wrth gael canmoliaeth gan ymarferydd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u hunan-barch.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn mwynhau amseroedd bwyta cymdeithasol, yn ymarfer moesau da ac yn eistedd yn daclus wrth y bwrdd. Mae llawer ohonynt yn mynd at ymarferwyr am gymorth ac yn aml yn eu gwahodd i chwarae. Mae plant hŷn yn datblygu medrau trefnu da wrth chwarae â'u ffrindiau. Maent hefyd yn dysgu i gymryd tro ac i rannu o oedran ifanc. Er enghraifft, mae'r plant hŷn yn cymryd tro'n naturiol i

ofyn am fyrbrydau yn y siop tra mae'r plant iau yn gwneud hynny â chymorth gan oedolion wrth adeiladu tŵr gan ddefnyddio blociau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau gweithgareddau chwarae buddiol ac yn datblygu medrau effeithiol wrth arbrofi a dysgu. Er enghraifft, mae dau blentyn yn cael llawer iawn o hwyl yn llenwi ac yn gwacáu'r cynwysyddion yn y twba dŵr. Mae'r plant iau yn mwynhau'r rhyddid i archwilio eu hamgylchedd yn ddiogel. Cânt lawer o hwyl yn gwneud synau â'r offerynnau cerdd sydd ar gael, gan wichian â chyffro a gwenu'n hapus wrth ysgwyd y clychau. Mae llawer o blant yn canolbwyntio am gyfnod addas sy'n cyd-fynd â'u cam datblygu.

Mae bron bob un o'r plant yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn dda. Mae'r plant iau yn eistedd wrth fyrddau isel ac yn defnyddio llwyau i fwydo eu hunain â chymorth gan oedolion, yn ôl y gofyn. Mae'r plant hŷn yn cymryd cyfrifoldeb am eu hylendid personol eu hunain ac yn ymateb yn dda i gyfleoedd i wneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r toiled ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol yn ystod y dydd ac yn dysgu sut i roi eli haul ar eu croen cyn mynd allan i chwarae. Maent yn ymateb yn dda i anogaeth a chymorth cadarnhaol gan ymarferwyr. O ganlyniad, mae llawer o blant yn ceisio gwneud pethau'n annibynnol yn naturiol cyn gofyn am gymorth gan oedolyn, er enghraifft wrth wisgo eu cotiau a'u hetiau.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad, gwna'r rhan fwyaf o blant gynnydd priodol o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n ofalus ar ymarferwyr ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau wrth chwarae. Mae'r mwyafrif ohonynt yn ymateb yn hyderus wrth siarad am eu gweithgareddau. Er enghraifft, maent yn siarad am liw a nifer y gleiniau pan fydd ymarferydd yn awgrymu eu bod yn copïo patrwm trwy eu hedafu ar garrai. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau, yn mwynhau eu cynnwys ac yn eu trin yn briodol ac â pharch yn yr ardal ddarllen. Mae llawer ohonynt yn deall yr egwyddor bod darllen yn weithgaredd i'w fwynhau. Maent yn dechrau datblygu medrau ysgrifennu cynnar trwy arbrofi â deunyddiau amrywiol fel creonau, paent a sialc. Maent yn mwynhau rhoi cynnig ar bethau drostynt eu hunain ac yn falch iawn o'r hyn maent yn ei greu. Mewn ychydig o weithgareddau, mae llawer ohonynt yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg syml yn hyderus, er enghraifft wrth ganu rhigymau Cymraeg cyfarwydd yn ystod amser cylch ac wrth ddewis eu byrbryd yng nghaffi'r lleoliad.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau mathemategol, rhifedd a datrys problemau da. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn canu ystod o ganeuon a rhigymau rhif fel 'Un bys, dau fys, tri bys yn dawnsio' yn hyderus yn ystod amser cylch. Mae llawer ohonynt yn defnyddio iaith fathemategol syml mewn cyd-destunau perthnasol, fel wrth gymharu powlenni mawr a bach yn ystod y sesiwn goginio neu wrth drafod a oes mwy neu lai o ffrwythau mewn basged wrth chwarae rôl. Mae llawer ohonynt yn cyfrif i ddeg heb gymorth ac mae ychydig o'r plant sydd â medrau mwy datblygedig yn cyfrif i ugain a'r tu hwnt wrth gyfrif gwrthrychau mewn llyfr lluniau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn adnabod lliwiau'n hyderus ac yn paru gwrthrychau tebyg.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau corfforol da wrth redeg o gwmpas ar yr ardal laswelltog y tu allan. Mae llawer ohonynt yn trin taclau bach, fel chwistrellau i chwistrellu dŵr ar ddalen Perspex neu'n defnyddio offer fel torrwr i wneud cacennau cri / pice ar y maen yn y sesiwn goginio.

Gwna bron bob un o'r plant gynnydd rhagorol o ran datblygu eu medrau creadigol. Maent yn creu casgliad o gelfyddydwaith hyfryd fel lluniau o flodau, enfys a gwenyn wrth iddynt ddysgu am wahanol agweddau ar yr haf. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan yn frwdfrydig wrth ganu caneuon cyfarwydd yn ystod amser cylch ac mae ychydig ohonynt yn defnyddio offerynnau taro yn briodol i gyd-fynd â'r canu. Mae llawer ohonynt yn dangos dychymyg da wrth chwarae mewn gwahanol ardaloedd chwarae rôl, fel y caffi a'r gegin.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gyfarwydd â defnyddio adnoddau digidol wrth chwarae ac yn eu gweithgareddau bob dydd. Er enghraifft, maent yn defnyddio microffon electronig yn hyderus i recordio eu hunain yn siarad ac yn canu, ffonau i sgwrsio yn yr ardal chwarae rôl ac maent yn rasio ceir rheoli o bell i weld pa un sy'n ennill.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda ac yn cadw at arferion dyddiol y lleoliad. Mae gan ymarferwyr dystysgrif cymorth cyntaf cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys i ymdrin â damweiniau ac maent yn sicrhau bod adnoddau cymorth cyntaf priodol ar gael yn y lleoliad a phan ânt ar ymweliadau. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gweithredu eu cyfrifoldebau'n dda. Maent yn cadw cofnodion o ddamweiniau, digwyddiadau ac anafiadau presennol, sy'n cynnwys llofnodion ymarferwyr a rhieni. Mae arweinwyr yn adolygu a dadansoddi'r gweithdrefnau hyn yn rheolaidd ac yn gwella eu systemau, o bryd i'w gilydd, pan fyddant yn nodi ffyrdd mwy effeithiol o weithio. Fel rhan o'u harferion diogelu ehangach ac er mwyn sicrhau bod plant yn ddiogel, mae ymarferwyr yn cofnodi presenoldeb y plant a'u horiau gwaith eu hunain. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw trwy gynnig amrywiaeth o fwydydd i blant, ynghyd â chaniatáu iddynt ddewis p'un ai i yfed llaeth neu ddŵr. Maent yn sicrhau y gall bob un o'r plant fanteisio ar awyr iach yn yr ardaloedd awyr agored bob dydd. Mae ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo a datblygu eu harfer hylendid personol eu hunain yn effeithiol. Mae gweithdrefnau newid cewynnau yn cyd-fynd ag arweiniad rheoli heintiau cyfredol. Mae ymarferwyr yn cynnal ymarferion tân rheolaidd fel bod y plant yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Mae ymarferwyr yn gynnes, yn groesawgar ac yn rhoi sicrwydd a chysur i'r plant yn gyson. Maent yn defnyddio iaith gadarnhaol â'r plant ac yn dilyn polisi ymddygiad y lleoliad yn dda, gan osod esiampl o ymddygiad cadarnhaol. Maent yn achub ar gyfleoedd rheolaidd i ganmol y plant pan maent yn garedig neu'n ymddwyn yn dda neu pan fyddant yn llwyddo yn eu tasgau. Mae ymarferwyr yn hwyluso datblygiad cymdeithasol y plant yn llwyddiannus trwy eu hannog i helpu â thasgau syml. Er enghraifft, yn ystod amseroedd bwyta, mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd i blant ddysgu i dorri ffrwythau a gweini eu grawnfwyd eu hunain. Maent yn annog y plant i ddweud diolch ac yn eu canmol wrth iddynt gwblhau eu tasgau'n llwyddiannus. Mae

hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu hunanhyder y plant a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd parchu ei gilydd.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad plant yn llwyddiannus. Maent yn darparu ardaloedd dysgu pwrpasol i blant, gyda llawer ohonynt yn aml yn cael eu harwain gan oedolion ond yn bodloni diddordebau'r plant. Mae ymarferwyr yn ymgysylltu'n dda â'r plant ac yn eu holi'n effeithiol wrth iddynt chwarae. Maent yn sensitif i blant sy'n dewis peidio ag ymgymryd â thasgau penodol, gan roi'r rhyddid iddynt ddewis eu gweithgaredd eu hunain. Dan do, mae ymarferwyr yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen ar blant ar gyfer tasgau penodol, ond nid ydynt bob tro yn ymateb yn ddigon cyflym i ddarparu adnoddau i sicrhau bod plant yn parhau i ymgysylltu â'u gweithgareddau yn yr ardaloedd awyr agored. Mae'r lleoliad wedi nodi'r angen i werthuso'r gweithgareddau mae'n eu darparu a hwyluso llais y plant ymhellach wrth gynllunio gweithgareddau.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant sydd ag anghenion ychwanegol yn gynnar ac yn eu cefnogi'n dda. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus â rhieni, gofalwyr ac asiantaethau allanol i sicrhau'r deilliannau gorau i blant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu o ansawdd uchel i blant sy'n datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau eraill yn dda. Mae'r rhain wedi'u seilio ar ddiddordebau'r plant, yn eu hannog i fod yn greadigol ac yn gyffredinol yn cyfateb yn llwyddiannus â'u cam datblygu. Mae ymarferwyr yn ymateb yn dda i ddiddordebau plant wrth gynllunio gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae. Maent hefyd yn darparu ystod o adnoddau a gweithgareddau sy'n gyfarwydd i'r plant ac y gallant ddod yn ôl atynt dro ar ôl tro, gan ddatblygu eu medrau'n llwyddiannus wrth iddynt chwarae.

Mae ymarferwyr yn defnyddio'r ardal leol yn briodol i gefnogi dysgu'r plant. Er enghraifft, maent yn ymweld â'r swyddfa bost leol ac yn annog bob plentyn i bostio llythyr adref. Mae'r plant yn cyffroi wrth dderbyn eu llythyr yn y post. Mae ymarferwyr hefyd yn gwahodd ymwelwyr i'r lleoliad i wella cyfleoedd dysgu i'r plant. Yn ddiweddar, trefnwyd i gi ymweld â'r lleoliad. Galluogodd hyn i'r plant ddysgu am sut gall anifeiliaid helpu pobl.

Mae llawer o ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ar gyfer cyfarwyddiadau yn ystod amser cylch, amser byrbryd ac yn achlysurol trwy gydol y sesiwn. Mae hyn yn cynyddu dealltwriaeth plant o'r iaith ac yn eu hannog i'w defnyddio'n naturiol, lle bo hynny'n briodol. Yn achlysurol iawn, mae'r lleoliad yn dathlu diwylliant a threftadaeth Cymru trwy drefnu ymweliadau â lleoedd yn y gymuned a chanu caneuon a rhigymau Cymraeg. Er enghraifft, ar Ddydd Gŵyl Dewi, trefnodd ymarferwyr ymweliad â chaffi lleol i addysgu'r plant am gynnyrch Cymreig fel llaeth a chaws. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd i blant wneud eu pice ar y maen eu hunain yng nghegin y lleoliad. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd a ddarperir i blant ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth amrywiol Cymru yn gyfyngedig.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda. Mae ymarferwyr yn annog plant i fod yn onest ac yn garedig â'i gilydd.

Maent yn eu hannog i ddatblygu ymdeimlad o chwilfrydedd tuag at natur ac yn enwedig adar ac anifeiliaid yn yr ardal leol. Maent yn darparu llyfrau a doliau i blant sy'n cynrychioli amrywiaeth. Mae'r lleoliad hefyd yn dathlu gwahanol grefyddau a diwylliannau i ddangos i blant y dylai pobl gael eu gwerthfawrogi, beth bynnag fo'u cefndir. Er enghraifft, ymwelodd cyn-riant â'r lleoliad i siarad am ei hymweliad â Nigeria a rhannu arferion y wlad honno â'r plant. Mae ffocws rheolaidd ar ddysgu am y berthynas rhwng gwahanol genedlaethau. Er enghraifft, mae'r plant yn ymweld â chartref gofal lleol bob wythnos i ddod i adnabod y preswylwyr a rhyngweithio â nhw. Mae ymarferwyr yn annog y plant i ddysgu am bwysigrwydd cynaliadwyedd ac ailgylchu. Maent yn ailgylchu gwastraff yn gyson ac yn annog rhieni i gefnogi'r banc bwyd lleol. Hefyd, mae'r lleoliad wedi dechrau ailgylchu llyfrau plant trwy sefydlu llyfrgell fenthyg ger y fynedfa.

Mae ymarferwyr yn fodelau da ar gyfer ymddygiad ac iaith. Defnyddiant gwestiynau penagored sy'n annog plant i gyfathrebu â nhw'n hyderus ac yn symud eu dysgu ymlaen. Maent yn aml yn chwarae ochr yn ochr â'r plant i ddangos amrywiol fedrau neu'n dechrau chwarae mewn ardal ar eu pennau eu hunain er mwyn i'r plant allu ymuno â nhw heb anogaeth. Mae hyn yn effeithiol o ran sicrhau bod bron bob un o'r plant yn ymgysylltu'n bwrpasol trwy gydol y sesiynau.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gynyddol o ddatblygiad plant. Maent yn arsylwi ar y plant wrth eu tasgau ac, yn ddiweddar, maent wedi addasu'r ffordd maent yn cofnodi eu nodiadau. Erbyn hyn, maent yn cofnodi eu harsylwadau yn llyfrau a ffeiliau allweddol y plant gan ddefnyddio tri cham – sylwi, dadansoddi ac ymateb. Mae'r rhain yn creu darlun cynhwysfawr o'u dysgu ac yn llywio'r camau nesaf iddynt.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr addas. Maent yn cadw cofnod o ymwelwyr ac mae ganddynt yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys. Mae arweinwyr yn cwblhau gwiriadau i'r adeilad a'r cerbydau mewn modd amserol. Maent yn sicrhau bod asesiadau risg ar waith ar gyfer y lleoliad ac ar gyfer yr holl weithgareddau ac ymweliadau. Mae'r rhain yn nodi peryglon posibl ac mae mesurau addas ar waith i'w rheoli.

Mae arweinwyr yn cynnig amgylchedd croesawgar a chyfeillgar i'r plant. Maent yn sicrhau bod digonedd o le i'r plant symud o gwmpas yr ardaloedd chwarae yn rhwydd. Maent yn darparu cyfleusterau addas i blant ddefnyddio'r toiled a'r basnau golchi dwylo'n annibynnol. Mae cyfleusterau newid cewynnau ar y ddau lawr ac mae'r rhain, ynghyd â'r toiledau, yn darparu parch a phreifatrwydd i'r plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau y caiff annibyniaeth y plant ei hwyluso drwy ddarparu dodrefn a storfeydd isel, priodol iddynt. Er enghraifft, mae'r plant yn eistedd wrth fyrddau o uchder addas i fwyta ac yn estyn adnoddau fel llyfrau o silffoedd addas. I lawr y grisiau, mae gan y lleoliad gynllun agored a defnyddir baredau i rannu'r ardaloedd ac i helpu i leihau lefelau uchel o sŵn er mwyn i'r ymarferwyr allu cynorthwyo plant i wrando ac ymgysylltu â'u dysgu. Mae arweinwyr yn darparu ardaloedd i'r plant iau gysgu, gorffwys ac ymlacio ar y ddau lawr. Er enghraifft, mae rhan o'r brif ystafell chwarae i fyny'r grisiau wedi'i neilltuo i blant gysgu ar fatiau llawr, yn ogystal â mewn crudiau yn yr ardal gysgu gyfagos. Gall plant hŷn yn yr ystafell i

lawr y grisiau fanteisio ar fatiau a chlustogau yn yr ardaloedd cwtsh, lle gallant orffwys ac ymlacio, yn ogystal ag ymgymryd â gweithgareddau tawel fel darllen.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod awyrgylch cyfeillgar a chysurus yn y lleoliad. Maent yn hybu hyn trwy arddangos lluniau o'r plant â'u teuluoedd, yn ogystal â lluniau o'r plant yn chwarae yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn arddangos celfyddyd y plant ac yn dangos bod gwaith pawb yn cael ei werthfawrogi. Mae hyn yn cyfrannu at ymdeimlad y plant o berthyn a balchder yn eu cyflawniadau.

Mae arweinwyr yn darparu digonedd o adnoddau sy'n addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n mynychu. Mae ymarferwyr yn annog datblygiad personol a chymdeithasol plant yn dda trwy ddarparu digon o deganau a llyfrau amrywiol ac addas iddynt. Maent yn trefnu'r ardaloedd dysgu dan do yn dda ac yn darparu ardaloedd dysgu diddorol i'r plant ddatblygu amrywiaeth o fedrau. Er enghraifft, mae cyfleoedd i blant chwarae rôl yn y gornel gartref ac i'r plant iau adeiladu tyrau gan ddefnyddio blociau. Er bod yr ardal awyr agored yn weddol fach, gwna ymarferwyr ddefnydd addas o'r lle sydd ar gael ac maent yn darparu cyfleoedd i blant ddatblygu ystod o fedrau wrth iddynt chwarae yn y gegin fwd ac archebu bwyd yn y caffi.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, ac maent yn ei chyfleu'n effeithiol i rieni a gofalwyr. Mae hyn wedi'i seilio ar ddarparu amgylchedd diogel, cynnes, cyfeillgar ac ysgogol i'r plant. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ymarferwyr ac yn eu cynorthwyo'n dda i gynyddu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol. Maent yn deall pwysigrwydd datblygu medrau Cymraeg ymarferwyr ac maent yn darparu cyfleoedd priodol iddynt gael hyfforddiant addas.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn gefnogol o'r rheolwr ac, yn gyffredinol, yn dyrannu arweinyddiaeth a rheolaeth dydd i ddydd y lleoliad iddi hi a'r staff. Gyda'i gilydd, maent yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant buddiol o ddiogelwch i'r lleoliad.

Mae gan y lleoliad ethos cadarnhaol ac mae'r plant a'r ymarferwyr yn hapus ac yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn trafod materion pwysig yn ymwneud â datblygiad plant yn rheolaidd ac yn gweithredu arnynt yn barhaus. Mae amcanion y lleoliad yn glir ac yn canolbwyntio'n dda ar anghenion y plant. Mae ymarferwyr yn eu deall ac yn eu rhoi ar waith yn gydwybodol ac maent ar gael i rieni, yn ôl yr angen.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau addas i werthuso eu gwaith ac maent yn cynnwys bob ymarferydd yn y broses. Mae arweinwyr hefyd yn ystyried safbwyntiau rhieni a gofalwyr trwy rannu holiaduron â nhw ac ystyried eu hadborth. Mae arweinwyr yn nodi'n gywir beth mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda ac yn amlygu ychydig o feysydd y mae angen eu gwella. Mae gweithdrefnau gwella yn glir ac mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn gweithgareddau'n gywir, yn gyffredinol. Fodd bynnag, yn aml, mae targedau ar gyfer gwella wedi'u seilio ar gwblhau tasgau a gweithgareddau ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon clir ar yr effaith ar brofiadau, dysgu a chynnydd plant.

Mae arweinwyr yn rheoli staff ac adnoddau'n ddarbodus ac yn effeithiol. Maent yn gwneud defnydd addas o grant datblygu'r blynyddoedd cynnar a grantiau eraill i

brynu adnoddau ac ariannu hyfforddiant i ymarferwyr. Mae rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr yn glir, mae cymarebau da o oedolion i blant ac mae cynlluniau addas wrth gefn rhag ofn y bydd staff yn absennol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y weithdrefn oruchwylio a gwerthuso ar gyfer ymarferwyr yn effeithiol ac yn arwain at bennu targedau cytûn priodol.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol ag ystod o bartneriaid i wella iechyd, dysgu a lles plant. Mae'r rhain yn cynnwys athro cymorth yr awdurdod lleol a swyddogion Dechrau'n Deg, ymhlith eraill. Hefyd, mae ymarferwyr yn cydweithio'n agos â rhieni a gofalwyr i nodi anghenion a hoffterau unigol y plant ar hyd eu cyfnod yn y lleoliad. Mae arweinwyr yn darparu gwybodaeth bwysig i rieni am bolisïau trwy ei wefan a thrwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol diogel. Hefyd, mae ymarferwyr yn siarad â rhieni'n rheolaidd ar ddechrau a diwedd y sesiwn, yn ôl yr angen.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/07/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 30 | The Responsible Individual must ensure that accurate daily registers for children and staff are completed for each room. The Responsible Individual must ensure that all staff, throughout each day, know which staff and children are on the premises and in which room at any given time of operating. | Cyflawnwyd |
| 31 | The Responsible Individual must ensure all relevant notifications are submitted to Care Inspectorate Wales within the required timescales. | Cyflawnwyd |
| 29 | The Responsible Individual must ensure the setting's disciplinary policy provides that the failure on the part of an employee to report an incident of abuse, or suspected abuse of a relevant child to an appropriate person is a ground on which disciplinary proceedings may be instituted. | Cyflawnwyd |
| 22 | The Responsible Individual must ensure policies and procedures are fit for purpose and that all leaders and staff are confident in implementing them, to ensure children are safeguarded. | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 24 Gorffennaf 2024